



## **Care and Social Services Inspectorate Wales**

### **Children and Families (Wales) Measure 2010 Child Minding and Day Care (Inspection and Information for Local Authorities) (Wales) Regulations 2010 The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010**

#### **Inspection Report**

#### **Rossett House Nursery**

Llay Road  
Rossett  
LL12 0HT

**Type of Inspection – Focussed**  
**Date(s) of inspection – 11/04/2013**  
**Date of publication – 23/05/2013**

You may reproduce this Report in its entirety. You may not reproduce it in part or in any abridged form and may only quote from it with the consent in writing of Welsh Ministers

Please contact CSSIW National Office for further information  
Tel: 0300 062 8800  
Email: [cssiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:cssiw@wales.gsi.gov.uk)  
[www.cssiw.org.uk](http://www.cssiw.org.uk)

## Summary

### About the service

Rossett House Nursery was registered with the Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW) in 2002 and operated for many years prior to this date under Wrexham County Borough Council registered childcare services. The service operates as part of Active Childcare Ltd and has two responsible individuals, Peter and Karen Graham. There are two appointed managers who supervise the day to day running of the nursery.

The purpose built premises afford a well designed light and spacious accommodation with each base area having a direct access/egress to outdoor play space. The building is situated in a rural area close to major road networks.

English is the working language of the nursery but basic Welsh is introduced to the children in everyday greetings, rhymes, songs, colour and number.

Staff are highly qualified and are encouraged to engage in Continuous Professional Development (CPD) programmes to extend their learning and experiences. Playwork units are included in this programme.

### What type of inspection was carried out?

A scheduled, unannounced focussed inspection was carried out on 11<sup>th</sup> April 2013 which concentrated on the quality of care provided under the areas of :

Rights and control.

Fulfilment.

Physical well being.

Emotional well being.

Information for this report was gathered from :

Talking to the responsible individuals, the persons in charges and members of staff.

Discussion with a parent.

Knowledge of the setting and its operational procedures.

Talking to the children.

Observation of the interaction between the children and the staff.

Observation of the quality of the play and learning experiences across the age groups and base settings, indoors and outdoors.

### What does the service do well?

The staffing ratios were exceeded in each unit.

Emphasis was placed on the promotion of health and well being by encouraging physical and imaginative play indoors and outdoors.

Children were encouraged to learn about caring for the nursery pets.

The nursery concentrated on providing healthy snacks and home cooked, nutritious food with milk or water to drink, in accordance with the Tiny Tums initiative.

An infection control audit has been completed in partnership with Environmental Health.

The service sources the fruit and vegetables from local suppliers wherever possible.

The nursery has achieved gold standard in the Small Work Place health awards.

The nursery is included in the Healthy and Sustainable pre-schools programme, a longitudinal study with a three year timetable.  
All the children, except for young babies, were encouraged to self feed. The toddlers and pre-school children were supported and encouraged to help to serve their own lunches from dishes placed centrally on the round tables.  
There has been a very low turnover of staff thus sustaining the levels of a qualified and experienced workforce.  
The provision has inclusive strategies for children with additional needs and disabilities.

**What has improved since the last inspection?**

There was evidence of a rolling programme of repair and refurbishment both indoor and outdoors.  
The training schedules have been maintained and new training opportunities have been added to the plans.  
The outdoor waste storage area has been refurbished and the recycling system has been extended.

**What needs to be done to improve the service?**

There were no non-compliance issues as a result of this inspection.  
There were no improvements or recommendations identified as a result of this inspection.

## Quality of life

Overall we, (CSSIW), found that the nursery service was meeting the individual needs of the children and their parents. Their health and welfare was secured by a well qualified, experienced and dedicated staff team. Children were observed using the staff as an additional resource, confidently asking questions and listening to the replies.

Children were able to access opportunities to learn and develop their skills. This was because of the variety of activities available in each unit and outdoors, many of which were child led, using their imagination and organisational skills. The music time was adult initiated but the children chose their instruments and songs and performed solos in front of the group. Small groups were taken outside to experience play in the open air and to learn the skills of pedalling bikes and developing hand – eye co-ordination with balls. There was robust use of the natural environment encouraging the children to observe wildlife and to grow plants and vegetables. There was a camera in a nesting box and a pet hen. A gap in the hedge provided a viewing area for the children to see cows.

The staff created a warm, calm atmosphere where the children were involved, interested and relaxed. It was evident that children's needs were anticipated, recognised and catered for. The babies had brightly coloured and comfortable floor mats and activities that encouraged mobility, reaching and stretching. There were no set sleep times and they were handled with great care and affection. Staff voices were soft and gentle and responsive to need.

Parents can feel that their children are protected and safe. There was a sound security system which limited entry to and from the building. Risk assessments, including fire risk were in place and reviewed continually and the outcomes recorded.. Emergency evacuation drills were in place and were recorded in the fire drill records. Health and Safety reviews were held supported by evidence in the H & S records. Transitions from home to nursery were closely monitored as were movements between units in the nursery. This was evidenced by entries in Individual child records and developmental files. One parent, spoken with, was happy to observe how well their child had settled in the setting and how they had become more active, responsive and involved in a short space of time.

Families have been encouraged to take part in a joint nursery activity to take home "Busy Bear" in turns, for a weekend. This has resulted in the pictorial pursuits of a well travelled bear. Working in partnership with parents is of paramount importance to the owners and staff. This was observed in the way that parents, grandparents and other family members were treated with great respect and were given all the relevant information about the child's session in nursery, when being collected.

The children were encouraged to access opportunities to learn and develop skills. An example of this was observed during circle time. Welsh responses were heard from the children when the register/welcome was carried out. There were introductions made and a discussion about "what day is it" and "what's the weather like today". The children chose the rhymes and did the actions with energy. The member of staff used lots of "well done" and "thank you" calling the children by name, constantly enforcing the positive strategies underlying the behaviour management of this setting.

## Quality of staffing

The inspection focussed on the quality of life of people using the service. Other than mentioned under the quality of life theme, we did not look at the quality of staffing on this occasion. However, this theme will be considered during future inspections.

## **Quality of leadership and management**

The inspection focussed on the quality of life of people using the service. Other than mentioned under the quality of life theme, we did not look at the quality of leadership and management on this occasion. However, this theme will be considered during future inspections.

## Quality of environment

The inspection focussed on the quality of life of people using the service. Other than mentioned under the quality of life theme, we did not look at the quality of environment on this occasion. However, this theme will be considered during future inspections.

## How we inspect and report on services

We conduct two types of inspection; baseline and focussed. Both consider the experience of people using services.

**Baseline inspections** assess whether the registration of a service is justified and whether the conditions of registration are appropriate. For most services, we carry out these inspections every three years. Exceptions are registered child minders, out of school care, sessional care, crèches and open access provision, which are every four years.

At these inspections we check whether the service has a clear, effective Statement of Purpose and whether the service delivers on the commitments set out in its Statement of Purpose. In assessing whether registration is justified inspectors check that the service can demonstrate a history of compliance with regulations.

**Focussed inspections** consider the experience of people using services and we will look at compliance with regulations when poor outcomes for people using services are identified. We carry out these inspections in between baseline inspections. Focussed inspections will always consider the quality of life of people using services and may look at other areas.

Baseline and focussed inspections may be scheduled or carried out in response to concerns.

Inspectors use a variety of methods to gather information during inspections. These may include;

- Talking with people who use services and their representatives
- Talking to staff and the manager
- Looking at documentation
- Observation of staff interactions with people and of the environment
- Comments made within questionnaires returned from people who use services, staff and health and social care professionals

We inspect and report our findings under 'Quality Themes'. Those relevant to each type of service are referred to within our inspection reports.

Further information about what we do can be found in our leaflet 'Improving Care and Social Services in Wales'. You can download this from our website, [Improving Care and Social Services in Wales](#) or ask us to send you a copy by telephoning your local CSSIW regional office.







## **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

### **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**

#### **Adroddiad Arolygu**

#### **Meithrinfa Rossett House**

Ffordd Llai  
Yr Orsedd  
LL12 0HT

**Math o Arolygiad – Adolygiad gyda phwyslais penodol  
Dyddiad(au) yr arolygiad – 11/04/2013  
Dyddiad cyhoeddi – 23/05/2013**

Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r Adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru.

Cysylltwch â Swyddfa Genedlaethol AGGCC i gael mwy o wybodaeth  
Rhif ffôn: 0300 062 8800  
E-bost: [cssiw@cymru.gsi.gov.uk](mailto:cssiw@cymru.gsi.gov.uk)  
[www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk)



## Crynodeb

### Yngl n â'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Meithrinfa Rossett House gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2002 a bu'n rhedeg am flynyddoedd lawer cyn y dyddiad hwn dan wasanaethau gofal plant cofrestredig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel rhan o Active Childcare Cyf. ac mae ganddo ddau unigolyn cyfrifol, sef Peter a Karen Graham. Mae dau reolwr wedi eu penodi sy'n goruchwyllo gweithrediad y feithrinfa o ddydd i ddydd.

Mae'r adeilad, a godwyd yn bwrsasol, yn fawr, yn olau ac wedi ei gynllunio'n dda, gyda mynediad/dyfodiad uniongyrchol i le chwarae y tu allan i bob prif ystafell. Lleolwyd yr adeilad mewn ardal wledig yn agos i rwydweithiau o briffyrdd.

Saesneg yw iaith gwaith y feithrinfa ond caiff Cymraeg sylfaenol ei gyflwyno i'r plant drwy gyfarchion pob dydd, hwiangerddi, caneuon, lliwiau a rhifau.

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau uchel ac fe'u hanogir i gymryd rhan mewn rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i ymestyn eu dysg a'u profiadau. Mae unedau Gwaith Chwarae wedi eu cynnwys yn y rhaglen hon.

### Pa fath o arolygiad a gynhaliwyd?

Cynhaliwyd arolygiad gyda phwyslais penodol ar yr 11<sup>eg</sup> o Ebrill 2013. Arolygiad dirybudd, wedi ei amserlennu oedd hwn, yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal a ddarperid ym meysydd:

- Hawliau a rheolaeth
- Bodddhad
- Lles corfforol
- Lles emosiynol

Casglwyd y wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn drwy:

- Siarad â'r unigolion cyfrifol, y personau â gofal ac aelodau o'r staff;
- Trafodaeth gyda rhiant;
- Gwybodaeth am y lleoliad a'i drefniadau gweithredu;
- Siarad â'r plant;
- Arsylwi'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff;
- Arsylwi ansawdd y profiadau chwarae a dysgu ar draws y grwpiau oedran a'r prif leoliadau, y tu mewn a'r tu allan.

### Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda?

Roedd y cymarebau staffio'n fwy nag sy'n ofynnol ym mhob uned.  
 Gosodid pwyslais ar hybu iechyd a lles drwy annog chwarae corfforol a dychmygol y tu mewn a'r tu allan.  
 Anogid y plant i ddysgu gofalu am anifeiliaid anwes y feithrinfa.  
 Canolbwyntiai'r feithrinfa ar ddarparu byrbrydau iach a bwyd maethlon, wedi ei goginio gartref, gyda llefrith neu dd r i'w yfed, yn unol â menter Tiny Tums.  
 Cwblhawyd archwiliad rheoli haint mewn partneriaeth gydag Iechyd yr Amgylchedd.

Mae'r gwasanaeth yn caffael y ffrwythau a'r llysiau gan gyflenwyr lleol lle bynnag y bo modd.

Enillodd y feithrinfa'r safon aur yng ngwobrau iechyd y Gweithleoedd Bach.

Mae'r feithrinfa wedi ei chynnwys yn y Rhaglen Gyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, astudiaeth hydredol gydag amserlen o dair blynedd.

Anogid y plant i gyd, ac eithrio'r babanod bach, i'w bwydo'u hunain. Câi'r plant bach a'r plant cyn-ysgol eu cynorthwyo a'u hannog i helpu eu hunain i ginio allan o ddysglau, oedd wedi eu gosod yng nghanol y byrddau crwn.

Bu trosiant y staff yn isel iawn ac felly diogelwyd lefelau'r staff cymwys a phrofiadol yn y gweithlu.

Mae gan y ddarpariaeth strategaethau cynhwysol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ac anabledau.

### **Beth sydd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf?**

Ceid tystiolaeth o raglen dreigl o atgyweirio ac ailwampio'r tu mewn a'r tu allan.

Cynhaliwyd yr amserlenni hyfforddiant ac mae cyfleoedd hyfforddiant newydd wedi eu hychwanegu at y cynlluniau.

Cafodd y lle gwastraff y tu allan ei ailwampio a chafodd y system ailgylchu ei hymestyn.

### **Beth sydd angen ei wneud i wella'r gwasanaeth?**

Ni chafwyd unrhyw broblemau diffyg cydymffurfio o ganlyniad i'r arolygiad hwn.

Ni nodwyd unrhyw welliannau nac argymhellion o ganlyniad i'r arolygiad hwn.

## Ansawdd bywyd

Ar y cyfan, fe gawsom ni (AGGCC) fod y gwasanaeth meithrin yn cyfarfod ag anghenion unigol y plant a'u rhieni. Câi eu hiechyd a'u lles eu sicrhau gan dîm o staff profiadol ac ymroddedig, oedd yn meddu ar gymwysterau uchel. Sylwyd ar y plant yn defnyddio'r staff fel adnodd ychwanegol, gan ofyn cwestiynau iddynt yn hyderus a gwrando ar eu hatebion.

Roedd y plant yn cael mynediad at gyfleoedd i ddysgu a datblygu eu sgiliau. Y rheswm am hyn oedd amrywiaeth y gweithgareddau oedd ar gael ym mhob uned a'r tu allan. Câi llawer o'r rhain eu harwain gan y plant, gan ddefnyddio'u dychymyg a'u sgiliau trefnu. Oedolion oedd yn cychwyn yr amser cerddoriaeth ond dewisai'r plant eu hofferynnau a'u caneuon a chanent unawdau o flaen y gr p. Eid â grwpiau bychain y tu allan i gael chwarae yn yr awyr agored ac i ddysgu sgiliau pedalu beic a datblygu cydweithrediad y llaw a'r llygaid gyda pheli. Gwneid defnydd helaeth o'r amgylchedd naturiol, oedd yn annog y plant i arsylwi bywyd gwyllt a thyfu planhigion a llysiau. Gosodwyd camera mewn blwch nythu ac roedd yno iâr anwes. Cynigiai bwllch yn y gwrych le hwylus i'r plant edrych ar y gwartheg.

Roedd y staff yn creu awyrgylch ddigyffro a chynnes, lle roedd y plant yn cymryd rhan, yn ymddiddori ac yn gartrefol. Roedd yn amlwg bod anghenion y plant yn cael eu rhagweld a'u cydnabod ac y gwneid darpariaeth ar eu cyfer. Roedd gan y babanod fatiau llawr cyfforddus a lliwgar a gweithgareddau, oedd yn eu hannog i symud, ymgyrraedd ac ymestyn. Nid oedd amseroedd cysgu penodedig a chaent eu trin â gofal ac anwylddeb mawr. Roedd lleisiau'r staff yn fwyn ac yn dyner wrth ymateb i angen.

Gall rhieni deimlo bod eu plant yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Roedd yno system ddiogelwch gadarn, oedd yn cyfyngu ar fynediad i mewn ac allan o'r adeilad. Roedd asesiadau risg yn eu lle, gan gynnwys risg tân, ac adolygid y rhain yn barhaus gan gofnodi'r canlyniadau. Roedd driliau gwacáu'r adeilad ar frys yn eu lle ac wedi eu cofnodi yn y cofnodion driliau tân. Cynhaliwyd adolygiadau lechyd a Diogelwch gyda thystiolaeth yn y cofnodion lechyd a Diogelwch. Câi'r trosglwyddiadau o'r cartref i'r feithrinfa eu monitro'n ofalus, fel y câi symudiadau rhwng unedau yn y feithrinfa. Ceid tystiolaeth i hyn yng nghofnodion unigol y plant a'r ffeiliau datblygiad. Roedd un rhiant, y siaradwyd â hi, yn hapus i ddweud mor dda yr oedd ei phlentyn wedi setlo yn y lleoliad a sut yr oedd wedi dod yn fwy egniol ac ymatebol a dechrau cymryd rhan mewn byr amser.

Cafodd teuluoedd eu hannog i gymryd rhan yng ngweithgaredd ar y cyd y feithrinfa, sef mynd â'r 'Arth Brysur' adref yn eu tro, am benwythnos. Canlyniad hyn yw darluniau o weithgareddau'r arth sydd wedi hen arfer teithio. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni o'r pwys mwyaf i'r perchnogion a'r staff. Sylwyd ar hyn yn y ffordd y câi rhieni, neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu eu trin â pharch mawr ac y rhoddid yr holl wybodaeth berthnasol iddynt am sesiwn eu plentyn yn y feithrinfa, pan fyddent yn dod i'w nôl.

Câi'r plant eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu a datblygu eu sgiliau. Gwelwyd enghraifft o hyn yn ystod yr amser cylch. Clywid atebion Cymraeg gan y plant pan oedd y gofrestr yn cael ei galw neu pan gaent eu croesawu. Ceid cyflwyniadau a thrafodaeth ynghylch 'pa ddiwrnod ydy hi?' a 'sut mae'r tywydd heddiw?' Y plant oedd yn dewis yr hwiangerddi ac roeddent yn gwneud y symudiadau'n egniol. Defnyddiai'r aelod o staff 'da iawn' a 'diolch' yn aml gan enwi'r plant ac atgyfnerthu'n gyson y strategaethau cadarnhaol sy'n sail i reolaeth ymddygiad yn y lleoliad hwn.

## **Ansawdd staffio**

Canolbwyntia'r arolygiad ar ansawdd bywyd y bobl a ddefnyddiai'r gwasanaeth. Ar wahân i'r hyn y soniwyd amdano dan thema ansawdd bywyd, ni wnaethom edrych ar ansawdd y staffio y tro hwn. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.

## **Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth**

Canolbwyntiai'r arolygiad ar ansawdd bywyd y bobl a ddefnyddiai'r gwasanaeth. Ar wahân i'r hyn y soniwyd amdano dan thema ansawdd bywyd, ni wnaethom edrych ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth y tro hwn. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.



## **Ansawdd yr amgylchedd**

Canolbwyntiai'r arolygiad ar ansawdd bywyd y bobl a ddefnyddiai'r gwasanaeth. Ar wahân i'r hyn y soniwyd amdano dan thema ansawdd bywyd, ni wnaethom edrych ar ansawdd yr amgylchedd y tro hwn. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.



## Sut yr ydym yn arolygu gwasanaethau ac yn hysbysu am y canlyniadau

Rydym yn cynnal dau fath o arolygiad; sylfaenol a chyda phwyslais penodol. Mae'r ddau yn ystyried profiad pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau

Mae arolygiadau sylfaenol yn asesu a oes cyfiawnhad i gofrestrriad gwasanaeth ac a yw amodau'r cofrestrriad yn briodol. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau, rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn bob tair blynedd. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal sesiynol, meithrinfeydd a darpariaethau mynediad agored, ar y llaw arall, yn derbyn arolygiad bob pedair blynedd.

Ar adeg yr arolygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben eglur ac effeithiol a bod y gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben. Wrth asesu a oes cyfiawnhad i gofrestrriad bydd yr arolygwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos hanes o gydymffurfio â'r rheoliadau.

Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol yn ystyried profiad pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, a byddwn yn edrych a yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau pan nodwyd canlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn rhwng arolygiadau sylfaenol. Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol bob amser yn ystyried ansawdd bywyd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddant o bosibl yn edrych ar feysydd eraill.

Gellid trefnu arolygiadau sylfaenol a rhai sydd â phwyslais penodol fel rhan o'r amserlen, neu eu cynnal mewn ymateb i bryderon.

Mae arolygwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau. Gallai'r rhain gynnwys;

- Siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u cynrychiolwyr
- Siarad â'r staff a'r rheolwr
- Edrych ar ddogfennau
- Arsylwi'r amgylchedd a'r ymadweithio rhwng y staff a'r bobl
- Edrych ar y sylwadau a nodwyd mewn holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, y staff a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol

Rydym yn arolygu ac yn hysbysu ynglŷn â'n canfyddiadau dan 'Themâu Ansawdd'. Cyfeirir at y rhai hynny sy'n berthnasol i bob math o wasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu.

Ceir gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud yn ein taflen 'Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'. Gallwch lawrlwytho hon o'n gwefan neu ffonio swyddfa ranbarthol leol AGGCC i ofyn i ni anfon copi atoch.